

Yr Amgylchedd Aer Lleol Rheoli ansawdd aer lleol a seinweddau yng Nghymru

Deddf yr Amgylchedd 1995
Deddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau)
(Cymru) 2024

Canllawiau polisi
PG(W)(25)

Cynnwys

Cyflwyniad.....	1
1 Ffyrdd o weithio	3
2 Meddwl hirdymor	6
3 Integreiddio polisi	9
4 Cymunedau'n cymryd rhan mewn mesurau ansawdd aer	13
5 Amcanion Ansawdd Aer ac Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer	16
6 Cydweithio.....	17
7 Atal.....	20
8 Sŵn a Seinweddau.....	22
Atodiad A Amcanion a safonau ansawdd aer	25

Cyflwyniad

Mae rheoli ansawdd aer yn flaenoriaeth iechyd cyhoeddus. Mae'n rhaid cymryd camau integredig yn rhyngwladol, yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol er mwyn gwella'r aer mae pobl yn ei anadlu. Mae Gweinidogion Cymru'n cyhoeddi'r canllawiau diwygiedig hyn i adlewyrchu'r newidiadau a wnaed i Ran IV o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 ("Deddf 1995") gan Ddeddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) Cymru 2024 ("Deddf 2024"). Mae'n rhaid i Awdurdodau Cyhoeddus, wrth gyflawni unrhyw rai o'u swyddogaethau o dan Ran IV o Ddeddf 1995 neu Ddeddf 2024 roi sylw i'r canllawiau hyn i'r graddau y maent yn ymwneud â'r swyddogaethau hynny. Defnyddir y term "deddfwriaeth" drwy gydol y canllawiau hyn i gwmpasu swyddogaethau yn Neddf 1995 a Deddf 2024.

Yn yr un modd, mae amgylchedd sain iach yn fwy na dim ond absenoldeb synau digroeso - rhaid i waith rheoli sŵn fod â ffocws ehangach na lleihau'r desibelau'n unig. Mae'r canllawiau'n adlewyrchu'r rhwymedigaethau seinwedd a sŵn ar wahân a gyflwynwyd gan Ddeddf 2024 hefyd. Rhaid i Weinidogion Cymru lunio strategaeth genedlaethol ar seinweddau o dan adran 25 o Ddeddf 2024. Wrth gyhoeddi'r Canllawiau hyn i Awdurdodau Lleol, mae Gweinidogion Cymru'n egluro swyddogaethau cyrff cyhoeddus yn Neddf 2024 hefyd.

Er mwyn i Awdurdodau Lleol fod yn effeithiol wrth weithio tuag at yr amcanion ansawdd aer cenedlaethol¹, mae'n rhaid i'r drefn rheoli ansawdd aer lleol gwmpasu mwy na swyddogaethau Awdurdod Lleol o dan y ddeddfwriaeth. Mae'n rhaid i'r gwaith o weithredu'r swyddogaethau hynny gyd-fynd â'r drefn rheoli ansawdd aer lleol o dan gyfundrefnau defnydd tir a chynllunio trafndiaeth, trwyddedu amgylcheddol a niwsansau statudol, yn ogystal â chyflawni unrhyw weithgareddau eraill, nad ydynt yn gyfyngedig i'r sector cyhoeddus, sy'n effeithio ar ansawdd aer lleol.

Mae'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru i gyrrff cyhoeddus fabwysiadu'r pum ffordd o weithio a nodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ("y Ddeddf Llesiant") wrth gyflawni gwaith rheoli ansawdd aer lleol. Gan fod y ffyrdd hyn o weithio yn cynnwys integreiddio polisi a chydweithio â phartneriaid, nid yw'r canllaw hwn yn cyfyngu ei hun i swyddogaethau Awdurdodau Lleol o dan y ddeddfwriaeth ond yn hytrach mae'n ceisio cyfleu pwysigrwydd gweithio cydlynol i gyflawni canlyniadau niferus.


Bwriedir i'r canllawiau hyn egluro disgwyliadau polisi Llywodraeth Cymru, a chael eu defnyddio fel cymorth gan awdurdodau cyhoeddus ar y cyd â'r cyngor arbenigol

¹ Caiff yr amcanion ansawdd aer cenedlaethol ar gyfer Cymru eu nodi yn Rheoliadau Ansawdd Aer (Cymru) 2000, fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Ansawdd Aer (Cymru) (Diwygio) 2002.

diweddaraf ar yr hyn sy'n gweithio'n ymarferol. Nid yw'n rhestru mesurau posibl ar gyfer gwella ansawdd aer na gwybodaeth am ble y gellid dod o hyd i wybodaeth bellach amdanynt. Mae unrhyw restr o'r fath yn dyddio'n gyflym.

Diben polisi rheoli ansawdd aer lleol a seinweddau o hyd yw gwella iechyd ac ansawdd bywyd ar gyfer bodau dynol, ac nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i ymestyn dyletswyddau penodol awdurdodau cyhoeddus o dan y ddeddfwriaeth i gynnwys rheoli effeithiau llygredd aer ar gynefinoedd naturiol sensitif. Dylid parhau i ymdrin â'r broses o reoli'r effeithiau hynny yn gadarn drwy'r cyfundrefnau defnydd tir a chynllunio trafndiaeth, trwyddedu amgylcheddol a gweithgareddau rheoleiddiol eraill sy'n canolbwyntio ar leihau effeithiau amgylcheddol ar arferion amaethyddol.

Y BROSES RHEOLI ANSAWDD AER LLEOL



1 Ffyrdd o weithio

- 1.1 O dan y Ddeddf Llesiant mae'n ofyniad i gyrff cyhoeddus fel Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd Lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru gynnal datblygu cynaliadwy. Dyma'r broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy gymryd camau, yn unol â'r egwyddor datblygu gynaliadwy, sydd â'r nod o gyflawni'r saith nod llesiant cenedlaethol².
- 1.2 Mae'r egwyddor datblygu gynaliadwy a ddiffinnir gan y Ddeddf Llesiant yn rhan hanfodol o sut mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus weithio bellach. Mae'n rhaid iddynt weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.
- 1.3 Mae'r egwyddor yn cynnwys pum ffordd o weithio y dylai gyrff cyhoeddus eu dilyn wrth gynnal datblygu cynaliadwy, sef:
- ystyried yr **hirdymor** er mwyn sicrhau nad ydym yn cyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain;
 - ymgymryd â dull **integredig**;
 - **cynnwys** amrywiaeth o'r boblogaeth yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt;
 - gweithio gydag eraill mewn ffordd **gydweithredol** i ganfod atebion cynaliadwy cyffredin; a
 - gweithredu i **atal** problemau rhag digwydd neu waethygu.

Blwch 1.1

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i Awdurdodau Lleol yng Nghymru ddilyn y pum ffordd o weithio yma wrth gyflawni gweithgarwch rheoli ansawdd aer lleol a seinweddau.

² Cymru ffyniannus, Cymru gadarn, Cymru iachach, Cymru fwy cyfartal, Cymru llawn cymunedau cydlynus, Cymru sydd â diwylliant byw a lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu, Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang.

PETHAU I'W GWNEUD A'U HOSGOI

- 1.4 O gofio'r uchod, **ni ddylai** gweithgarwch rheoli ansawdd aer lleol a seinweddau yng Nghymru gael ei wneud yn y ffyrdd canlynol:
- chwilio am atebion tymor byr i achosion o ddiffyg cydymffurfio ag amcanion ansawdd aer cenedlaethol;
 - ceisio rheoli ansawdd aer ar wahân i ganlyniadau cysylltiedig eraill, fel seinweddau gwell, llai o allyriadau carbon, ffyrdd mwy diogel, ffyrdd iachach o fyw ac ecosystemau cryfach;
 - gadael i'r arbenigwyr benderfynu beth sydd orau, a rhoi gwybod i'r cyhoedd ar ôl i'r penderfyniadau cael eu gwneud;
 - Swyddogion ansawdd aer yr Awdurdodau Lleol yn ceisio gwneud popeth ar eu pennau eu hunain; neu
 - aros hyd nes yr eir yn groes i'r amcanion ansawdd aer cenedlaethol cyn dechrau gwneud rhywbeth am y peth.
- 1.5 Yn hytrach, **dylai'r** gweithgareddau hyn yng Nghymru gael eu cynnal drwy:
- fynd i'r afael ag atebion hirdymor parhaus i unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio â'r amcanion ansawdd aer cenedlaethol;
 - ceisio rheoli ansawdd aer ar yr un adeg â chyflawni canlyniadau cysylltiedig eraill;
 - manteisio ar bob cyfle i siarad â'r cyhoedd am heriau ansawdd aer, gwrandao ar eu pryderon a gofyn am eu sylwadau ar atebion posibl a'u rôl wrth gyflawni'r rhain;
 - gweithio gyda phartneriaid mewnol ac allanol er lles pawb wrth gyflawni'r canlyniadau a ddymunir; a
 - cadw amlygiad i lygredd aer mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol ar draws y boblogaeth gyfan, gan edrych am ardaloedd lle y mae perygl yr eir yn groes i'r amcanion ansawdd aer cenedlaethol ar ryw adeg yn y dyfodol a gweithredu'n ataliol i osgoi hyn.

2 Meddwl hirdymor

- 2.1 Mae Cynlluniau Datblygu yn elfen allweddol o'r system gynllunio yng Nghymru. Mae'r ffocws ar greu lleoedd ym Mholisi Cynllunio Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i bynciau polisi fel ansawdd aer, sŵn a seinweddau gael eu hystyried ochr yn ochr â'r holl bynciau polisi perthnasol eraill wrth baratoi cynlluniau datblygu a dylunio a phenderfynu ar gynigion cynllunio. Dylai awdurdodau cynllunio weithio'n agos gyda swyddogion ansawdd aer a sŵn wrth baratoi Cynlluniau Datblygu ac wrth bennu ceisiadau cynllunio defnydd tir.
- 2.2 Dylai Cynlluniau Datblygu sicrhau eu bod yn ystyried effeithiau sŵn ac ansawdd aer hirdymor y datblygiadau arfaethedig a'r galw am drafnidiaeth sy'n gysylltiedig â hwy. Dylent hefyd sicrhau eu bod yn ystyried yr effeithiau hirdymor y gallai ansawdd aer a'r seinweddau gweddillol eu cael ar y bobl sy'n byw yn y datblygiadau arfaethedig.
- 2.3 Mae polisi cynllunio mewn perthynas ag ansawdd aer, sŵn a seinwedd yn pwysleisio'r angen i sicrhau cyfleoedd fel rhan o'r broses gynllunio, yn hytrach nag osgoi'r effeithiau negyddol gwaethaf yn unig. Nid yw'n dderbyniol mwyach ystyried ansawdd aer a sŵn fel materion technegol i'w lliniaru ar ddiwedd y broses. Yn hytrach, maent yn rhan annatod o ddyluniad, gweithrediad, iechyd, amwynder a lles lleoedd. Yn unol â hynny, dylid mabwysiadu dull integredig o lunio strategaethau a ffurfio cynigion ar gyfer lleoedd, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud ag ansawdd aer a seinwedd.
- 2.4 Yn sicr mae mwy nag un ffordd o ymdrin â'r heriau sy'n deillio o lygredd aer a sŵn, ac nid drwy'r drefn cynllunio defnydd tir yn unig. Mae cynlluniau a strategaethau ar gyfer hyrwyddo trafnidiaeth lanach a theithio llesol drwy Awdurdodau Lleol neu grwpio Awdurdodau Lleol yn rhanbarthol yr un mor bwysig, ynghyd ag asesiad cadarn o gynigion seilwaith trafnidiaeth unigol. Dylai cynllunwyr trafnidiaeth weithio'n agos gyda swyddogion ansawdd aer a sŵn wrth baratoi a gweithredu cynlluniau a strategaethau sydd â goblygiadau hirdymor posibl ar gyfer ansawdd aer a seinweddau lleol.
- 2.5 Dylai cynlluniau gweithredu ansawdd aer lleol a luniwyd i gydymffurfio ag amcanion ansawdd aer cenedlaethol o fewn ardaloedd rheoli ansawdd aer anelu at atebion hirdymor parhaol ac nid atebion cyflym a fydd yn arwain at gydymffurfio am gyfnod byr yn unig. Wrth flaenoriaethu mesurau, mae rhagolygon galw traffig hirdymor yr un mor bwysig â deall y lefel gyfredol o ddefnydd ffordd.

- 2.6 Ym mhob agwedd ar gynllunio defnydd tir a thrafnidiaeth, dylid rhoi ystyriaeth ofalus i adrodd am dueddiadau'r dyfodol³.
- 2.7 Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu unrhyw grwpio rhanbarthol neu Awdurdodau Lleol sy'n rhoi strategaeth ansawdd aer lleol neu ranbarthol ar waith, boed hynny i gadw lefelau llygredd aer mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol neu i fynd i'r afael ag achosion o ddiffyg cydymffurfio mewn modd strategol ar draws ardal sy'n ehangach nag ardaloedd rheoli ansawdd aer unigol. Fodd bynnag, ni ddylai strategaeth o'r fath weithredu ar wahân i feysydd polisi eraill, yn hytrach, dylai gael ei hintegreiddio gyda chynllunio defnydd tir a thrafnidiaeth, iechyd cyhoeddus, teithio llesol, seilwaith gwyrdd, diogelwch ar y ffyrdd a newid yn yr hinsawdd lle bynnag y mae'n hysbys bod synergeddau a gwrthdaro hirdymor posibl rhwng y meysydd polisi eraill yn bodoli.
- 2.8 Dylai unrhyw gorff cyhoeddus neu grŵp o gyffwrdd cyhoeddus sy'n datblygu neu'n gweithredu cynllun neu strategaeth hirdymor ranbarthol neu leol sydd â goblygiadau posibl ar gyfer ansawdd aer sicrhau nad yw'n/ydynt yn cyfrannu at fynd yn groes i'r amcanion ansawdd aer cenedlaethol. Fodd bynnag, nid yw'r amcanion ansawdd aer cenedlaethol yn lefelau 'diogel' o lygredd aer. Yn hytrach, maent yn drothwy ymarferol a ddefnyddir gan y llywodraeth i nodi pan fydd y risgiau iechyd sy'n gysylltiedig â llygredd aer yn annerbyniol. Nid yw aer sy'n cydymffurfio â'r amcanion ar y lefel isaf bosibl yn 'lân' am fod ganddo risgiau iechyd hirdymor o hyd. Nid oes trothwy diogel wedi'i ddiffinio ar gyfer nitrogen deuocsid a deunydd gronynnol ar hyn o bryd, a'r isaf yw'r crynodiad o'r llygryddion hynny, yr isaf yw'r risgiau o effeithiau iechyd andwyol yn y boblogaeth a gaiff ei hamlygu i'r llygredd aer. Felly, er bod cydymffurfio â'r amcanion ansawdd aer cenedlaethol yn hanfodol, mae'n ddymunol cadw lefelau llygredd mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol.
- 2.9 Mater i Awdurdodau Lleol unigol Cymru yw'r ffordd orau o gyfathrebu eu polisïau sŵn a seinwedd lleol. Mae'r opsiynau'n cynnwys cynhyrchu cynllun lleol neu strategaeth leol ar gyfer sŵn a seinwedd, neu un sy'n cwmpasu'r amgylchedd aer yn fwy cyffredinol. Fodd bynnag, mae amgylchedd sain sy'n newid yn barhaus ar ôl pandemig, canol trefi sy'n esblygu, newidiadau oherwydd datgarboneiddio a thrydaneiddio trafndiaeth gyhoeddus, yn ogystal â galw newidiol am drafndiaeth breifat, a newidiadau yn y ffordd y mae pobl yn byw eu bywydau a ble maent yn byw ac yn gweithio yn golygu bod y cyfleoedd a'r heriau'n datblygu'n gyflym.

Blwch 2.1

Dylai ein nod hirdymor ar gyfer ansawdd aer fod yn ddeublyg:

³ <https://www.llyw.cymru/tueddiadaur-dyfodol-2017>

**sicrhau cydymffurfiad â'r amcanion ansawdd aer cenedlaethol mewn mannau
lle mae'r llygredd ar ei waethaf; a
lleihau amlygiad y boblogaeth i lygredd yn ehangach, gan sicrhau'r llesiant
iechyd gorau posibl i'r cyhoedd.**

3 Integreiddio polisi

- 3.1 Mae gan lygredd sŵn amgylcheddol a gludir yn yr aer, sef sŵn annymunol neu niweidiol o drafnidiaeth a diwydiant, lawer yn gyffredin â llygredd aer. Mae ffynonellau llygredd sŵn amgylcheddol ac aer yn tueddu i fod yn union yr un fath neu'n gysylltiedig, mae eu llwybrau trosglwyddo yn debyg, ac mae'r bobl a amlygir iddynt fwyaf hefyd yn aml yr un fath, fel arfer y bobl sydd agosaf i'r ffynhonnell.
- 3.2 Ar gyfer traffig ar y ffyrdd sy'n teithio ar gyflymdra sefydlog, mae allyriadau llygredd aer a sŵn yn cynyddu neu'n gostwng yn ôl nifer y cerbydau. Yn aml mae'r cerbydau mwyaf swllyd a brwnt yr un fath, yn yr un modd mae'r cerbydau mwyaf tawel a glân yr un fath hefyd. Mae lefelau llygredd aer a sŵn ar eu huchaf wrth ochr y ffordd ei hun ac maent yn gostwng wrth symud i ffwrdd ohoni. Gall adeiladau a thirwedd rwystro neu sianelu llygredd aer a sŵn. Gall traffig sy'n teithio ar gyflymdra uchel iawn a thraffig mewn tagfeydd arwain at lefelau uchel o lygredd aer a sŵn. Yn ogystal, mae rhai effeithiau iechyd andwyol wedi'u cysylltu â llygredd aer a sŵn, er enghraifft risg uwch o glefyd cardiofasgwlaidd.
- 3.3 Am y rhesymau hyn i gyd, mae'n gwneud synnwyr i ystyried y ddwy ffurf o lygredd traffig a gludir yn yr aer gyda'i gilydd. Byddai mynd i'r afael â hwy ar wahân yn arwain at ddyblygu ymdrechion a cholli cyfleoedd, o bosibl wrth weithredu polisiâu gwrthdrawiadol.
- 3.4 Wrth ddatblygu cynlluniau gweithredu ansawdd aer lleol neu bolisiâu ehangach sydd â'r nod o wella ansawdd aer, dylai Awdurdodau Lleol ofyn y cwestiynau canlynol:
- A oes materion llygredd sŵn amgylcheddol cyfredol sy'n gysylltiedig â'r materion ansawdd aer hysbys? Os felly, allwn ni ymdrin â hwy ar yr un pryd?
 - A oes risg y bydd rhai o'n camau gweithredu arfaethedig ar gyfer ansawdd aer yn gwneud y sefyllfa o ran sŵn amgylcheddol yn waeth? Os felly, sut gallwn ni leihau'r risg?

Blwch 3.1

Diben y drefn rheoli ansawdd aer lleol yw gwella iechyd ac ansawdd bywyd ar gyfer bodau dynol. Bydd y gwelliant hwn i iechyd ac ansawdd bywyd yn well o lawer os gellir sicrhau seinweddau gwell ochr yn ochr â gostyngiadau o ran llygredd aer.

- 3.5 Mae seilwaith gwyrdd yn cyfeirio at ardaloedd naturiol neu led-naturiol sydd wedi'u gorchuddio'n rhannol neu'n llawn gan llystyfiant neu ddŵr mewn neu'n agos i ardaloedd adeiledig. Mae'n cynnwys parciau a gerddi, coetiroedd, rhandiroedd, gwarchodfeydd natur, pyllau dŵr, llynnoedd, afonydd, camlesi, gwlypdiroedd a llwybrau oddi ar y ffordd sydd â llystyfiant neu ddŵr ar y ffin, sy'n darparu cynefinoedd ar gyfer bywyd gwyllt a gellid eu defnyddio ar gyfer gweithgareddau hamdden, addysg neu deithio llesol.
- 3.6 Gall coed, perthi a seilwaith gwyrdd gyfrannu at leihau effeithiau niweidiol llygredd aer a sŵn mewn nifer o ffyrdd:
- Drwy gael gwared ar lygredd o'r aer a'i gynorthwyo i wasgaru, a thrwy amsugno, lledaenu, a lleihau'r canfyddiad o sŵn.
 - Drwy roi pellter byffro rhwng ffynonellau sŵn a derbynyddion, hynny yw, y rhai a gaiff eu heffeithio ganddynt.
 - Drwy alluogi teithio llesol oddi ar y ffordd a'i wneud yn ddewis deniadol yn lle defnyddio cerbyd modur, gan leihau allyriadau cerbydol y defnyddiwr a'u hamlygiad personol i'r allyriadau.
 - Drwy ddarparu amgylcheddau tawel a seinweddau cadarnhaol, sy'n lleihau lefelau straen a gysylltir â ffyrdd prysur.
 - Drwy annog chwaraeon a gweithgareddau awyr agored eraill, gwella iechyd cyffredinol pobl a datblygu eu cryfder mewn perthynas â'r risgiau iechyd a achosir gan lygredd aer a sŵn.
- 3.7 Yn ogystal, gall presenoldeb coed a pherthi wrth ochr y ffordd neu yn y llain ganol gael effaith ostegol, gan arwain at fodurwyr sy'n gyrru'n fwy llyfn. Fodd bynnag, mewn perthynas ag arwyddocâd effeithiau fel hyn, ynghyd â photensial coed, perthi a llystyfiant eraill i amsugno neu wasgaru llygredd aer, mae Llywodraeth Cymru yn annog Awdurdodau Lleol i gyfeirio at y cyngor diweddaraf a gyhoeddwyd gan gyrff fel Grŵp Arbenigol Ansawdd Aer Llywodraeth y DU⁴.

Blwch 3.2

Mae Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu'r gwaith o ddarparu atebion sy'n seiliedig ar natur i wella ein cryfder cymdeithasol, ecolegol ac economaidd. Dylid rhoi ystyriaeth briodol i atebion o'r fath wrth ddatblygu unrhyw gynllun neu strategaeth i ymdrin â llygredd aer a/neu sŵn ar lefel leol neu ranbarthol.

⁴ <https://uk-air.defra.gov.uk/library/ageg/publications>

- 3.8 Erbyn hyn, cydnabyddir effaith andwyol cerbydau diesel ar ansawdd aer lleol. Yn wreiddiol, cafodd y cerbydau hyn eu hyrwyddo fel rhai mwy cyfeillgar i'r amgylchedd am fod ganddynt allyriadau nwyon tŷ gwydr is na cherbydau petrol, ond yn ddiweddarach canfuwyd bod ganddynt allyriadau nitrogen ocsid annerbyniol o uchel. Mae'n hanfodol ein bod yn nodi ac yn osgoi unrhyw wrthdaro posibl pellach rhwng polisïau newid hinsawdd a llygredd aer.
- 3.9 Mae synergeddau cryf posibl rhwng polisïau i wella ansawdd aer a pholisïau i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr. Yn gyffredinol, mae'r ffynonellau yn tueddu i fod yr un fath, gydag allyriadau sy'n ymwneud â defnyddio tanwydd yn achos ffynonellau hylogsi, a lefelau gweithgaredd yn achos ffynonellau eraill fel unedau da byw dwys a chompostio. Bydd mesurau i leihau allyriadau llygredd aer yn aml yn lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, ac i'r gwrthwyneb.

Blwch 3.3

Dylai cynlluniau a pholisïau Awdurdodau Lleol ar gyfer newid hinsawdd ac ansawdd aer fod yn gyson ac yn integredig lle y bo'n briodol er mwyn manteisio i'r eithaf ar synergeddau posibl ac osgoi unrhyw wrthdaro posibl.

- 3.10 Prif ffynhonnell llygredd aer lleol fel arfer yw traffig ffyrdd. Felly, mae'n rhaid i'r ateb i heriau ansawdd aer lleol fod ynghlwm wrth bolisïau trafndiaeth leol a rhanbarthol. Mae hyn yn cynnwys rheoli traffig ffyrdd, annog ymgymryd â thechnolegau glanach, newid dulliau teithio, a theithio llesol. Os na all y drefn rheoli ansawdd aer lleol ddylanwadu a gweithio mewn ffordd gydlynol gyda'r meysydd polisi hyn, ni fydd yn bosibl iddi lwyddo. Mae'n rhaid i'r drefn rheoli ansawdd aer lleol gael ei hintegreiddio'n agos â mentrau diogelwch ffyrdd er mwyn sicrhau manteision niferus ac osgoi polisïau gwrthdrawiadol.
- 3.11 Yn yr un modd, ni all y drefn rheoli ansawdd aer lleol obeithio atal ansawdd aer rhag dirywio ymhellach, na manteisio ar y posibilrwydd o ddatblygu i wella ansawdd aer, os na fydd swyddogion ansawdd aer yn cynnal perthynas waith agos iawn â'u cydweithwyr yn yr ardal gynllunio, mewn perthynas â pholisi eang ac achosion unigol.

Blwch 3.4

Ochr yn ochr ag integreiddio ansawdd aer â pholisïau amgylcheddol eraill, mae integreiddio polisi rhyngadrannol yn hanfodol, yn arbennig mewn perthynas â chynllunio defnydd tir a thrafnidiaeth.

- 3.12 Gall lleihau amlygiad y boblogaeth i lygredd aer a sŵn arwain at boblogaeth fwy iach, diogel a chynhyrchiol, gan olygu llai o alw ar y gwasanaeth iechyd. Felly, mae er budd y gweithwyr iechyd ac iechyd cyhoeddus proffesiynol i gefnogi gweithredoedd yr Awdurdodau Lleol i leihau risgiau ac anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig â llygredd a gludir yn yr aer.
- 3.13 Gall gweithwyr iechyd ac iechyd cyhoeddus proffesiynol, gan gynnwys y rhai mewn sefydliadau ymchwil, gyfrannu at y drefn rheoli ansawdd aer lleol drwy helpu Awdurdodau Lleol i dargedu eu gweithredoedd hyd eithaf eu gallu, nid yn unig yn yr ardaloedd mwyaf llygredig ond hefyd mewn mannau lle y mae llygredd a gludir yn yr aer yn bodoli ochr yn ochr ag amddifadedd a ffactorau risg eraill sy'n gysylltiedig ag anghydraddoldebau iechyd.
- 3.14 Gall gweithwyr iechyd ac iechyd cyhoeddus proffesiynol hefyd leihau risgiau a baich anghymesur mewn perthynas â chlefydau, gan gynnwys mewn poblogaethau difreintiedig, drwy weithio mewn partneriaeth ag Awdurdodau Lleol i gyfathrebu gwybodaeth a chyngor pwysig am ansawdd aer i'r cyhoedd, yn arbennig lle y bydd hyn yn arwain at newid ymddygiad. Mae'n bwysig i wybodaeth a chyngor o'r fath fod yn gydgysylltiedig, er mwyn osgoi negeseuon cymysg wrth gyrff cyhoeddus sy'n gweithio mewn partneriaeth ar y drefn rheoli ansawdd aer lleol.

Blwch 3.5

Dylai swyddogion ansawdd aer Awdurdodau Lleol weithio gyda gweithwyr iechyd ac iechyd cyhoeddus proffesiynol i integreiddio'r drefn rheoli ansawdd aer lleol yn effeithiol gyda mentrau lleol eraill gyda'r nod o leihau risgiau ac anghydraddoldebau iechyd mewn cymunedau yr effeithir arnynt.

4 Cymunedau'n cymryd rhan mewn mesurau ansawdd aer

- 4.1 Er mwyn i gymunedau lleol, gan gynnwys trigolion a busnesau, chwarae eu rhan yn yr ateb i heriau ansawdd aer lleol a sŵn, mae'n rhaid iddynt fod wedi ymgysylltu yn gyntaf. Mae hyn yn golygu bod angen iddynt gael gwybodaeth glir, gywir, amserol am natur unrhyw broblem. Mae bob amser gan aelodau'r cyhoedd yr hawl i wybod cyflwr ansawdd yr aer yn eu hardal, hyd yn oed pan fydd cydymffurfiaeth lawn ag amcanion ansawdd aer cenedlaethol.
- 4.2 Mae adran 16 o Ddeddf 2024, sy'n diwygio adran 82 o Ddeddf 1995, yn ei gwneud yn ofynnol i bob Awdurdod Lleol adolygu ansawdd aer presennol a thebygol y dyfodol yn ei ardal.
- 4.3 Mae'r cyhoedd yn dangos mwy o ddiddordeb yn y materion iechyd sy'n gysylltiedig ag ansawdd aer gwael. Mae'n gyffredin bellach i aelodau o'r cyhoedd wybod am y pryderon ynghylch ansawdd aer sy'n gysylltiedig â cherbydau diesel, tra bod gweithgareddau sy'n cynhyrchu mwg, llwch neu arogl yn debygol o wneud i bobl bryderu am effeithiau iechyd posibl y gweithgareddau hynny. Felly, mae'n hanfodol cyhoeddi gwybodaeth hygyrch, ddiweddar a chywir am ansawdd aer lleol.

Blwch 4.1

Dylai Awdurdodau Lleol neu grwpiau rhanbarthol o Awdurdodau Lleol gynhyrchu adroddiad cynnydd blynyddol drafft ar ansawdd aer erbyn diwedd mis Medi, a ysgrifennwyd ar gyfer y cyhoedd cyffredinol ac yn dilyn templed a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, a chyhoeddi'r adroddiad terfynol cyn i'r flwyddyn ddod i ben.

- 4.4 Dylai pob adroddiad cynnydd blynyddol a'r data sy'n gysylltiedig ag ef gael ei gyhoeddi mewn fformat agored a dylid sicrhau ei fod ar gael i'w aildefnyddio'n gyffredinol o dan y Drwydded Llywodraeth Agored⁵.
- 4.5 Os bydd Awdurdodau Lleol yn hwyr wrth gyflwyno'u hadroddiadau cynnydd blynyddol drafft, cânt nodyn atgoffa ac yna llythyr rhybudd gan swyddogion Llywodraeth Cymru. Os na fyddant yn cynhyrchu eu hadroddiad drafft erbyn diwedd y flwyddyn galendr, byddant, yn absenoldeb eglurhad cymhellol, yn derbyn cyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru o dan adran 18 o Ddeddf 2024, sy'n diwygio adran 85(3) o Ddeddf 1995.

⁵ <http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence>

4.6 Mae gan aelodau o'r cyhoedd hawl i wybod nid yn unig i ba raddau y cânt eu hamlygu i lygredd a gludir yn yr aer, ond hefyd a yw'r cyrff cyhoeddus perthnasol yn trin hyn fel blaenoriaeth. O 2018 ymlaen, yn ogystal ag adrodd ar gynnydd mewn perthynas ag ardaloedd rheoli ansawdd aer, dylai pob adroddiad cynnydd blynyddol hefyd nodi:

- a yw llygredd aer a/neu sŵn amgylcheddol yn cael eu cynnwys o fewn amcanion llesiant yr Awdurdodau Lleol o dan y Ddeddf Llesiant, ac os felly, ym mha ffurf, a pha gynnydd a wnaed wrth fodloni'r amcanion hynny hyd yn hyn; a
- pa bolisiau, os o gwbl (e.e. yn ymwneud â chynllunio defnydd tir a thrafnidiaeth, seilwaith gwyrdd a theithio llesol), sydd gan Awdurdodau Lleol ar waith i leihau lefelau cyffredinol o nitrogen deuocsid, deunydd gronynnol a llygredd sŵn amgylcheddol ar gyfer y boblogaeth gyfan, gan ystyried dangosyddion amlygiad ansawdd aer Cymru⁶ a mapiau sŵn cenedlaethol⁷.

Blwch 4.2

Dylai cymunedau lleol gael eu cynnwys yn y broses o'r cychwyn wrth ddatblygu cynllun gweithredu ansawdd aer lleol. Ni ddylai Awdurdodau Lleol aros nes bod y cynllun yn bodoli ar ffurf drafft cyn gofyn am eu mewnbwn. O fewn 18 mis o ddatgan neu ymestyn ardal rheoli ansawdd aer, dylid cyflwyno cynllun gweithredu drafft a lywiwyd gan gyfranogiad y gymuned leol i'w archwilio gan Lywodraeth Cymru.

⁶ <https://statscymru.llyw.cymru/catalogue/environment-and-countryside/air-quality>

⁷ <http://lle.gov.wales/map/airbornepollution>

YSGOLION A LLEOLIADAU DERBYNYDDION SENSITIF ERAILL

- 4.7 Ystyrir bod rhai grwpiau mewn perygl uwch o ddioddef salwch o ganlyniad i amlygiad i lygredd aer na gweddill y boblogaeth. Ymhlith y grwpiau hyn sy'n arbennig o agored i niwed mae pobl hŷn a'r rhai sydd â chyflwr meddygol sy'n bodoli eisoes. Mae babanod a phlant hefyd yn arbennig o agored i niwed, gan fod niwed a achosir pan fo plant yn ifanc yn gallu arwain at effeithiau sy'n para'n hir yn y dyfodol. Gall pobl sy'n gwneud llawer o ymarfer corff egnïol ac felly'n anadlu'n drwm hefyd fod yn agored i niwed os cânt eu hamlygu i lefelau uchel o lygredd aer ar yr un pryd dros gyfnod hir.
- 4.8 Mae cartrefi gofal, ysbytai, meithrinfeydd, ysgolion, safleoedd chwaraeon a llwybrau teithio llesol yn enghreifftiau o leoliadau lle y gellid disgwyl gweld niferoedd mawr o'r bobl sy'n perthyn i'r grwpiau uchod. Fodd bynnag, nid yw pobl hŷn, y rhai sydd â chyflwr meddygol sy'n bodoli eisoes, babanod, plant, a phobl sy'n ymgymryd â gweithgareddau corfforol dros gyfnod hir i'w gweld yn y lleoliadau a enwyd uchod yn unig ac maent i'w gweld ar unrhyw stryd breswyl yng Nghymru. Maent yn haeddu'r un lefel o ddiogelwch lle bynnag y bônt. Mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol ddilyn dull sy'n seiliedig ar risg wrth leoli eu hardaloedd monitro. Dylai'r dull gael ei lywio gan y dystiolaeth, gan gynnwys tystiolaeth y cymunedau lleol, sy'n nodi ble mae pobl yn debygol o gael eu hamlygu i'r lefelau uchaf o lygredd aer.
- 4.9 Mae gan ysgolion rôl unigryw i'w chwarae ym maes rheoli ansawdd aer lleol, nid yn unig am eu bod yn lleoliadau lle mae nifer fawr o blant (gallant hefyd fod yn byw mewn unrhyw fannau preswyl sy'n agored i lefelau uchel o lygredd aer), ond am ddau reswm arall. Y cyntaf yw cyfraniad sylweddol y cyfnod lle caiff plant eu hebrwng i'r ysgol ac oddi yno ("school run") i lefelau o lygredd aer a thagfeydd traffig ar ffyrdd o fewn ardaloedd dalgylch ysgolion yn ystod oriau prysur. (Mae plant yn debygol o gael eu hamlygu i lefelau uwch o lawer o lygredd aer wrth deithio i'r ysgol ac o'r ysgol na phan maent ar dir yr ysgol.) Yr ail yw'r potensial i ysgolion helpu i addysgu plant a rhieni ar y materion ynghylch ansawdd aer ac archwilio atebion posibl, fel rhannu ceir a pholisïau dim aros o gwmpas ar dir yr ysgol. Dylai Awdurdodau Lleol ystyried ymgysylltu ag ysgolion fel rhan o'u gweithgareddau rheoli ansawdd aer lleol, er mwyn archwilio opsiynau ar gyfer lleihau effeithiau hebrwng plant i'r ysgol ac oddi yno ar gymdeithas yn gyffredinol a phlant yn arbennig, ac i addysgu plant ac oedolion ar ansawdd aer lleol yn fwy cyffredinol.

Blwch 4.3

Wrth weithio tuag at lesiant cenedlaethau'r dyfodol, dylai Awdurdodau Lleol ystyried yn arbennig y risgiau hirdymor i fabanod a phlant sydd ynghlwm wrth amlygiad i lygredd aer, boed hynny yn eu cartrefi, yn eu hysgolion a'u meithrinfeydd, neu wrth deithio rhwng y ddau le.

5 Amcanion Ansawdd Aer ac Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer

- 5.1 Lle nad yw amcan ansawdd aer cenedlaethol yn cael ei gyflawni, neu le nad yw'n debygol o gael ei gyflawni, mae adran 17 o Ddeddf 2024, sy'n diwygio adran 83 o Ddeddf 1995 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol ddynodi ardal rheoli ansawdd aer. At hynny mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdod Lleol ddatblygu cynllun gweithredu ar gyfer yr ardal rheoli ansawdd aer. Dylid hysbysu ac ymgysylltu â chymunedau lleol yn ystod y ddau weithgaredd cyntaf fel y gallant wedyn wneud cyfraniad defnyddiol at ddatblygu a gweithredu unrhyw gynlluniau gweithredu ansawdd aer lleol neu strategaethau cysylltiedig.
- 5.2 Wrth bennu ffin ardal rheoli ansawdd aer, dylai'r Awdurdod Lleol wneud dyfarniad priodol ar faint yr ardaloedd o ddiffyg cydymffurfio a ragwelir, lleoliadau'r derbynyddion perthnasol, natur a lleoliad y ffynonellau perthnasol, a ffactorau lleol eraill.
- 5.3 Yr Awdurdod Lleol sy'n penderfynu ar union eiriad gorchymyn ardal rheoli ansawdd aer. Fodd bynnag, dylai gynnwys y dyddiad y daw i rym, y llygrydd(ion) a'r amcan(ion) ansawdd aer cenedlaethol y dynodir yr ardal rheoli ansawdd aer ar eu cyfer, map sy'n dangos yr ardal rheoli ansawdd aer a disgrifiad o'r ardal.
- 5.4 Dylai Awdurdodau Lleol ddatgan neu ymestyn ardal rheoli ansawdd aer cyn gynted â phosibl ar ôl cydnabod yr angen iddi gael ei datgan neu ei hymestyn. Dylid cyflwyno copi o'r gorchymyn ardal rheoli ansawdd aer newydd neu ddiwygiedig i Lywodraeth Cymru a Defra, ynghyd â ffeil siâp GIS o ffin yr ardal rheoli ansawdd aer. Mae'n rhaid i'r gorchymyn gael ei wneud yn gyhoeddus hefyd a dylid tynnu sylw pobl sy'n byw ac yn gweithio o fewn ffin yr ardal rheoli ansawdd aer at y gorchymyn.
- 5.5 Yn dilyn datgan neu ymestyn ardal rheoli ansawdd aer, dylai'r Awdurdod Lleol ddechrau gweithio gyda'r gymuned leol a rhanddeiliaid eraill ar unwaith i ddatblygu cynllun gweithredu ansawdd aer lleol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth lawn â'r amcanion ansawdd aer cenedlaethol. Yn ddelfrydol, ni ddylai'r drafft cychwynnol gymryd mwy na blwyddyn i'w baratoi. Mae'n rhaid cynhyrchu cynllun gweithredu drafft i'w adolygu gan Lywodraeth Cymru o fewn 18 mis i'r dyddiad y daeth y gorchymyn ardal rheoli ansawdd aer i rym, ac mae'n rhaid i'r cynllun gweithredu gael ei fabwysiadu'n ffurfiol cyn i ddwy flynedd fynd heibio. Os na fydd Awdurdod Lleol yn cynhyrchu cynllun gweithredu drafft i'w adolygu gan Lywodraeth Cymru o fewn dwy flynedd i ddatgan neu ymestyn ardal rheoli ansawdd aer, bydd yn derbyn, yn absenoldeb eglurhad cymhellol, cyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru o dan adran 85(3) o Ddeddf 1995.

- 5.6 Dylid adolygu a diweddarau cynlluniau gweithredu ansawdd aer lleol pryd bynnag y bo angen, ond yn sicr o leiaf unwaith bob pum mlynedd. Dylai adolygiadau o'r fath gynnwys mewnbwn gan gymunedau lleol.
- 5.7 Dylai Awdurdodau Lleol yng Nghymru ganolbwyntio ar fonitro ac adrodd ar nitrogen deuocsid a deunydd gronynnol (PM₁₀). Anogir monitro ac adrodd ar ddeunydd gronynnol mân (PM_{2.5}) ond nid yw'n orfodol. Nid oes angen monitro llygryddion eraill yn rheolaidd bellach oni bai bod rheswm i gredu bod problem leol benodol gydag un ohonynt. Gallai rheswm o'r fath fod yn ddarlleniad nad yw'n cydymffurfio o'r rhwydwaith monitro ansawdd aer cenedlaethol, neu ragfynegiad o ddiffyg cydymffurfio gan y model ansawdd aer cenedlaethol.
- 5.8 Gall awdurdodau lleol amrywio neu ddirymu gorchymyn ardal rheoli ansawdd aer presennol o ganlyniad i adolygiad ansawdd aer dilynol, fel y nodir o dan adran 83(2) o Ddeddf 1995. Unwaith y bydd yr Awdurdod Lleol wedi dangos bod yr ardal rheoli ansawdd aer yn cydymffurfio â'r amcanion ansawdd aer (gyda digon o hyder ei bod yn annhebygol yr eir y tu hwnt i'r amcanion yn y dyfodol) disgwylir y bydd y gorchymyn ardal rheoli ansawdd aer yn cael ei amrywio neu ei ddirymu cyn gynted â phosibl (yr amser byrraf posibl).
- 5.9 Dylai'r adolygiad ddangos yn glir bod amcanion ansawdd aer cenedlaethol yn cael eu cyflawni'n gyson dros gyfnod o amser ac y byddant yn parhau i gael eu cyflawni. Mewn geiriau eraill, dylai'r Awdurdod Lleol fod yn hyderus y bydd y gwelliannau a welwyd yn cael eu cynnal.
- 5.10 Pan fo Awdurdod Lleol yn penderfynu y dylai gorchymyn gael ei amrywio neu ei ddirymu o ganlyniad i adolygiad ansawdd aer dilynol, mae Llywodraeth Cymru'n disgwyl i'r awdurdod hysbysu aelodau'r cyhoedd, busnesau a phartïon eraill â diddordeb yng nghyffiniau'r ardal rheoli ansawdd aer. Dylid darparu'r holl wybodaeth ategol sydd ar gael, gan gynnwys yr ymateb gan gymunedau, a phartïon â diddordeb i gyfiawnhau'r amrywiad neu'r dirymiad, i Lywodraeth Cymru yn amlinellu'r lefelau cydymffurfio, a'r disgwyliad parhaus y bydd cydymffurfiaeth yn cael ei chynnal i'w chyflwyno i Weinidogion Cymru. Gall Awdurdod Lleol gyflwyno cynnig i amrywio neu ddirymu gorchymyn ardal rheoli ansawdd aer presennol ar unrhyw adeg.
- 5.11 Nid oes unrhyw feini prawf penodol y bydd penderfyniad amrywio neu ddirymu yn seiliedig arnynt, ac mae Gweinidogion Cymru'n ystyried pob cais fesul achos. Dylai'r Awdurdod Lleol ddarparu ei dystiolaeth i gefnogi'r penderfyniad ar ffurf adroddiad cynnig amrywio/dirymu, y ceir manylion amdano isod.

- 5.12 Fel arfer y gofyniad sylfaenol fydd o leiaf tair blynedd yn olynol pan fydd yr amcanion sy'n peri pryder yn cael eu cyflawni a lle mae data monitro'n dangos ei bod yn annhebygol y bydd rhagor o achosion yn mynd y tu hwnt i'r amcanion. Bydd gwybodaeth a data monitro'n cael eu casglu'n rheolaidd drwy'r broses adolygu ac asesu a lle bo angen, astudiaethau monitro a modelu ychwanegol. Nid oes angen cynnal asesiad manwl ar gyfer yr ardal rheoli ansawdd aer yn benodol er mwyn bwrw ymlaen ag amrywio neu ddirymu gorchymyn ardal rheoli ansawdd aer.
- 5.13 Fel arfer dylai cynnwys adroddiad cynnig i amrywio neu ddirymu gynnwys manylion am y canlynol o leiaf:
- disgrifiad o'r ardal rheoli ansawdd aer a ffynonellau llygredd lleol;
 - offer a lleoliadau monitro mewn perthynas â'r ardal rheoli ansawdd aer;
 - data monitro ar gyfer yr ardal rheoli ansawdd aer yn dangos cydymffurfiaeth â'r amcanion ansawdd aer perthnasol am o leiaf tair blynedd yn olynol, gyda digon o hyder i sicrhau ei bod yn annhebygol y bydd rhagor o achosion o fynd uwchlaw'r amcanion ansawdd aer;
 - ymateb gan gymunedau o amgylch yr ardal rheoli ansawdd aer;
 - argymhelliad a chyfiawnhad dros benderfyniad yr awdurdod; a
 - lle mae asesiad manylach (neu astudiaethau ychwanegol) wedi'i gynnal, gellir cynnwys hyn hefyd fel tystiolaeth i gefnogi'r cynnig i amrywio neu ddirymu'r gorchymyn ardal rheoli ansawdd aer.
- 5.14 Mae llawer o'r wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer adroddiad cynnig i ddiwygio neu ddirymu i'w chael yn yr Adroddiadau Cynnydd Blyneddol presennol a'r bwriad yw y dylid defnyddio'r wybodaeth hon (yn hytrach na'i gwneud yn ofynnol i waith newydd neu ychwanegol gael ei wneud). Dylai'r achos dros amrywio neu ddirymu fod yn gymesur â maint yr ardal rheoli ansawdd aer hefyd (h.y. bydd angen mwy o fanylion ar gyfer adroddiad ar gyfer ardal rheoli ansawdd aer dinas gyfan nag ar gyfer ardal rheoli ansawdd aer sy'n cwmpasu darn o stryd neu wedi'i seilio o amgylch cyffordd draffig).
- 5.15 Rhaid darparu'r holl wybodaeth ategol sydd ar gael i gyfiawnhau'r amrywiad neu'r dirymiad i Lywodraeth Cymru cyn y disgwylir i unrhyw newidiadau ddod i rym.
- 5.16 Pan fydd y cynnig i amrywio/dirymu yn cael ei dderbyn gan Weinidogion Cymru, disgwylir i Awdurdodau Lleol gymryd y camau angenrheidiol cyn pen pedwar mis ar ôl derbyn sylwadau. Pan fydd gorchymyn ardal rheoli ansawdd aer yn cael ei ddirymu, dylai'r awdurdod ddatblygu neu addasu strategaeth ansawdd aer leol bresennol neu gynnal cynllun gweithredu ansawdd aer ar gyfer yr ardal(oedd) a ddynodwyd yn flaenorol i sicrhau bod problemau

ansawdd aer yn parhau i gael proffil uchel yn lleol ac i ymateb i unrhyw ddisgwyliadau gan y cyhoedd.

- 5.17 Unwaith y bydd gorchymyn ardal rheoli ansawdd aer wedi'i amrywio neu ei ddirymu, dylai Awdurdodau Lleol roi cyhoeddusrwydd eang i'r amrywiad neu'r dirymiad drwy'r cyfryngau lleol i sicrhau bod y cyhoedd a busnesau lleol yn gwbl ymwybodol o'r sefyllfa. Dylai'r hysbysiadau hyn ddigwydd o fewn mis i'r amrywiad/dirymiad i'r gorchymyn ardal rheoli ansawdd aer ddod i rym.
- 5.18 Yn dilyn dirymiad, yn ddefnyddiol dylai'r Awdurdod Lleol roi strategaeth ansawdd aer leol neu ranbarthol ar waith i sicrhau bod ansawdd aer yn parhau i fod yn fater proffil uchel a bod amodau'n cael eu hatal rhag dirywio yn y dyfodol. Dylai awdurdodau ddiweddarau cronfa ddata ardaloedd rheoli ansawdd aer hefyd drwy'r porth rheoli ansawdd aer lleol i sicrhau bod gwefannau UK Air ac Ansawdd Aer yng Nghymru yn cael eu diweddarau'n unol â hynny. Os oes angen cysylltwch â desg gymorth rheoli ansawdd aer lleol am gyngor pellach ar ddiweddarau'r gronfa ddata.

6 Cydweithio

- 6.1 Er mwyn i'r drefn rheoli ansawdd aer lleol fod yn effeithiol, mae angen i swyddogion ansawdd aer yr Awdurdodau Lleol gydweithio â phartneriaid mewnol ac allanol. Os na fydd awdurdodau cynllunio ac adrannau trafndiaeth o fewn Awdurdodau Lleol yn cymryd perchenogaeth rannol dros y rhaglen waith rheoli ansawdd aer lleol, mae'n debygol taw cylch diddiwedd o fonitro'r broblem fydd gennym ac, mewn rhai lleoedd, gwyllo'r sefyllfa'n gwaethygu.
- 6.2 Mae Llywodraeth Cymru yn annog Awdurdodau Lleol i gynnal gwaith rheoli ansawdd aer lleol ar lefel ranbarthol yn hytrach nac ar sail unigol, lle bynnag y mae hyn yn gwneud synnwyr. Drwy weithio'n rhanbarthol dylai fod yn bosibl sicrhau ffocws gwell ar atal a helpu i gyflawni canlyniadau gwell i bobl a chymunedau yn y tymor byr a'r hirdymor. Mae'n cynnig manteision ymarferol yn nhermau arbedion maint, cael gwared ar ddyblygu, lleihau cymhlethdod, symleiddio gweithgareddau, sicrhau cysondeb a datblygu gweithlu cryf ym maes polisi cymhleth, sy'n dibynnu'n rhy aml ar nifer bach o staff arbenigol er mwyn mynd i'r afael â'r gwaith. Dylai lleihau'r tebygolrwydd o golli terfynau amser o ganlyniad i absenoldeb staff annisgwyl. Dylai hefyd helpu i nodi, yn gynnar, sefyllfaoedd lle y gallai ansawdd aer mewn un Awdurdod Lleol gael ei effeithio'n andwyol gan benderfyniadau o ran defnydd tir neu drafnidiaeth a wneir mewn Awdurdod Lleol cyfagos, gan arwain at atebion trawsffiniol i broblemau cyffredin.

- 6.3 Mae'r Ddeddf Llesiant yn rhoi sail statudol i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n cynnwys Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd Lleol, gwasanaethau tân ac achub a Chyfoeth Naturiol Cymru. Mae'n rhaid i bob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ei ardal drwy gyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant cenedlaethol. Mae'n rhaid i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gynnal asesiad o lesiant lleol, a ddylai ystyried adolygiadau ac asesiadau Awdurdodau Lleol o ansawdd aer lleol. Yna, mae'n rhaid iddynt osod amcanion llesiant a gweithredu cynllun llesiant lleol. Mae'n rhaid i bob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gyhoeddi adroddiad blynyddol ar gynnydd tuag at fodloni ei amcanion llesiant.
- 6.4 Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gosod dyletswydd statudol ar Cyfoeth Naturiol Cymru i gynhyrchu Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR) a datganiadau ardal a fydd yn hyrwyddo'r gwaith o weithredu'r Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol a blaenoriaethu camau gweithredu ar lefel leol. Bydd datganiadau ardal yn darparu sylfaen dystiolaeth gadarn ar gyfer rheoli adnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy, gan gynnwys yr aer, i lywio a dylanwadu ar ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru ystyried adolygiadau ac asesiadau Awdurdodau Lleol o ansawdd aer lleol wrth gynnal y gwaith hwn. Mae'n rhaid i asesiadau Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus o lesiant a Chynlluniau Datblygu Lleol ystyried datganiadau ardal Cyfoeth Naturiol Cymru.
- 6.5 Mae Byrddau Iechyd Lleol ac Iechyd Cyhoeddus Cymru mewn safle da i addysgu a hysbysu'r cyhoedd a'r bobl sy'n gwneud penderfyniadau am faterion sy'n ymwneud ag iechyd y cyhoedd. Yn ogystal â pharatoi Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol a datganiadau ardal, Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r corff rheoleiddio ar gyfer allyriadau i'r aer (gan gynnwys sŵn) o gyfleusterau diwydiannol a gwastraff mawr. Dylai Byrddau Iechyd Lleol, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru gefnogi Awdurdodau Lleol lle bynnag y bo'n bosibl wrth ddatblygu a gweithredu cynlluniau gweithredu ansawdd aer lleol a strategaethau ansawdd aer lleol neu ranbarthol. Gall y cymorth hwn fod drwy waith o fewn Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Fodd bynnag, gallai a dylai Awdurdodau Lleol a chyrff cyhoeddus eraill gydweithio ar reoli ansawdd aer a sŵn hyd yn oed pan nad yw'n flaenoriaeth ar gyfer y cynllun llesiant lleol a fabwysiadwyd gan y Corff Gwasanaethau Cyhoeddus.
- 6.6 Pan na fydd lefel briodol o gydweithio cadarnhaol gan sefydliadau partner, dylai Awdurdodau Lleol geisio ddatrys y broblem yn uniongyrchol â'r sefydliadau dan sylw, gan gyfeirio'r mater at lefel uwch fel bo angen. Os, a dim ond os bydd hyn yn methu, dylai Awdurdodau Lleol ddenu'r achos at sylw Llywodraeth Cymru.

- 6.7 Dylai pob adroddiad cynnydd blynyddol nodi a yw'r gwaith o fonitro'r drefn rheoli ansawdd aer lleol, dangosyddion amlygiad ansawdd Cymru a mapiau sŵn cenedlaethol aer wedi llywio, neu fynd i lywio, asesiadau Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus o lesiant, a sut byddant yn gwneud hynny. Os na fydd cynllun gweithredu ansawdd aer lleol yn cyfateb yn naturiol ag unrhyw un o'r amcanion yng nghynllun llesiant lleol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, dylid nodi hyn yn glir. Dylai swyddogion ansawdd aer ei chael hi'n haws i gael mynediad i'r wybodaeth hon wrth i'r gofynion ar gyfer integreiddio a chydweithio sy'n ofynnol o dan y Ddeddf Llesiant gael eu hymgorffori o fewn eu sefydliadau. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod os na fydd llinellau cyfathrebu o fewn Awdurdod Lleol yn gweithredu cystal ag y dylent, gallai'r wybodaeth y gofynnir amdani yma fod yn anoddach i swyddogion gael gafael arni. Gallai hyn arwain at rywfaent o waith ychwanegol ar gyfer swyddogion yn y tymor byr.
- 6.8 Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod priffyrdd ar gyfer traffyrdd a chefnffyrdd yng Nghymru, ac maent yn cymryd eu cyfrifoldeb dros reoli effeithiau amgylcheddol y ffyrdd hynny o ddifrif. Bydd Llywodraeth Cymru, lle y bo angen, yn ymgysylltu'n adeiladol ag Awdurdodau Lleol a/neu Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (y mae Gweinidogion Cymru yn cael gwahoddiad statudol i fod yn rhan ohonynt) er mwyn ceisio atebion effeithiol i broblemau ansawdd aer a sŵn. I'r gwrthwyneb, pan fydd y rhwydwaith monitro ansawdd aer cenedlaethol neu'r model ansawdd aer cenedlaethol yn nodi neu'n rhagfynegi diffyg cydymffurfio â gwerthoedd ansawdd aer yr UE (neu werthoedd cyfwerth y DU yn dilyn gadael yr UE) a bod y ffyrdd dan sylw yn gyfrifoldeb Awdurdod Lleol, bydd Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r Awdurdod Lleol gofrestru hyn yn ei adroddiadau cynnydd blynyddol, ystyried datblygu cynlluniau adfer a gweithio gyda Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod y ffyrdd hynny yn cydymffurfio eto cyn gynted â phosibl.

7 Atal

- 7.1 Amcangyfrifir bod llygredd aer yn lleihau disgwyliad oes pob person sy'n byw yn y DU gan sawl mis. Yng Nghymru, caiff bron mil o farwolaethau a 10,000 o flynyddoedd bywyd eu colli bob blwyddyn o ganlyniad i nitrogen deuocsid a deunydd gronynnol, ac amcangyfrifir bod cost ariannol llygredd aer yn y DU tua £20 biliwn y flwyddyn⁸. Yng Nghymru, mae Awdurdodau Lleol wedi datgan mwy na 40 o ardaloedd rheoli ansawdd aer, un ar gyfer deunydd gronynnol, a'r gweddill wedi'u cysylltu â nitrogen deuocsid o draffig ffyrdd.
- 7.2 Mae sŵn a ddaw o ffynonellau llygredd aer yn effeithio ar bobl yn bennaf drwy amharu ar eu cwsig ac achosi annifyrrwch, ond hefyd drwy risg uwch o gyflyrau iechyd sy'n ymwneud â phwysedd gwaed uchel ac effeithiau ar gynhyrchedd a dysgu, gyda chost i'r DU wedi'i hamcangyfrif i fod tua £10 biliwn y flwyddyn⁹. Yn ôl y mapiau sŵn cenedlaethol a gynhyrchwyd yn 2012, mae cartrefi mwy na 200,000 o bobl yng Nghymru wedi'u hamlygu i sŵn traffig ffyrdd sydd y tu hwnt i ganllawiau sŵn nos Sefydliad Iechyd y Byd.
- 7.3 Mae'r ddeddfwriaeth sydd gennym ar waith yn gryf o ran nodi problemau. Fodd bynnag, mae wedi cael llwyddiant cyfyngedig hyd yma wrth ddatrys y problemau hynny. Dylem allu gwneud yn well na hyn, yn nhermau dod o hyd i atebion arloesol i broblemau sy'n bodoli eisoes ac atal problemau pellach rhag codi.
- 7.4 Waeth ble maent yn byw a gweithio, bydd dosau uchaf pobl o lygredd a gludir yn yr aer sy'n gysylltiedig â thraffig yn tueddu i ddigwydd pan fyddant yn teithio, ar hyd neu wrth ochr ffyrdd prysur. Mae pobl sy'n byw ac yn gweithio mewn ardaloedd rheoli ansawdd aer yn debygol o gael eu hamlygu i grynodiadau uwch o lygredd a gludir yn yr aer yn eu cartrefi ac yn y gweithle na phobl sy'n byw ac yn gweithio mewn mannau eraill. Fodd bynnag, mae statws 'diffyg trothwy' gan y llygryddion aer sy'n peri'r pryder mwyaf o safbwynt iechyd y cyhoedd, sy'n golygu nad oes lefel 'diogel' o amlygiad. O ganlyniad, mae'r mwyafrif o faich iechyd y gellid ei hosgoi yn deillio o amlygiad y boblogaeth i lygredd a gludir yn yr aer y tu allan i ardaloedd rheoli ansawdd aer.

⁸ <https://www.rcplondon.ac.uk/projects/outputs/every-breath-we-take-lifelong-impact-air-pollution>

⁹ <https://www.gov.uk/noise-pollution-economic-analysis>

- 7.5 Mae'r cyfundrefnau cynllunio defnydd tir a thrafnidiaeth yn allweddol i atal achosion newydd o ddiffyg cydymffurfio ag amcanion ansawdd aer cenedlaethol a lefelau annerbyniol o sŵn sy'n deillio o ganlyniad i ddatblygiad newydd. Mae hefyd rhywfaint o gwmpas i ddefnyddio'r cyfundrefnau hynny i geisio cynnal lefelau o amlygiad y cyhoedd i lygredd a gludir yn yr aer mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol.
- 7.6 Efallai y bydd Awdurdodau Lleol a sefydliadau partner yn penderfynu bod angen mesurau ychwanegol er mwyn atal salwch a achosir gan lygredd a gludir yn yr aer, y tu hwnt i'r darpariaethau ansawdd aer a sŵn a gynhwysir o fewn y cyfundrefnau cynllunio defnydd tir a thrafnidiaeth. Pan fydd hyn yn digwydd, un opsiwn y gellid ei ystyried yw strategaeth ansawdd aer lleol neu ranbarthol. Byddai Llywodraeth Cymru yn croesawu cyrff cyhoeddus i weithio gyda'i gilydd i gynhyrchu strategaethau o'r fath. Yn dibynnu ar y blaenoriaethau sy'n deillio o'u hasesiadau o lesiant lleol, gallai Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ddewis canolbwyntio ar y mater hwn a/neu ymdrin ag ef fel rhan o ystyriaeth ehangach. Bydd cyrff cyhoeddus sy'n dewis dod ynghyd i ddatblygu strategaeth ansawdd leol neu ranbarthol yn y sefyllfa orau i bennu'r hyn sydd fwyaf priodol yn nhermau cwmpas, ffurf cynnwys a lefel uchelgais gyffredinol. Nid yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu gorfodi un model i bawb yn hyn o beth.
- 7.7 Dylai Awdurdodau Lleol sydd wedi datgan ardaloedd rheoli ansawdd aer ddefnyddio eu cynlluniau gweithredu ansawdd aer nid yn unig i sicrhau cydymffurfiaeth ag amcanion ansawdd aer cenedlaethol o fewn yr ardal rheoli ansawdd aer, ond hefyd i geisio atal neu leihau effeithiau niweidiol llygredd a gludir yn yr aer o fewn a'r tu allan i'r ardal rheoli ansawdd aer. Gellid cyflawni hyn yn rhannol drwy weithio gydag ysgolion a Byrddau Iechyd Lleol.

Blwch 6.1

Dylai unrhyw gynlluniau gweithredu ansawdd aer lleol newydd neu wedi'i ddiweddarau o 2017 ymlaen nodi sut y bwriedir mynd i'r afael â chamau gweithredu nid yn unig gyda'r bwriad o gyflawni cydymffurfiaeth dechnegol ag amcanion ansawdd aer cenedlaethol, ond hefyd gyda'r nod o fanteisio i'r eithaf ar eu cyfraniad at leihau lefelau cyffredinol o nitrogen deuocsid, deunydd gronynnol a llygredd sŵn amgylcheddol ar gyfer y boblogaeth yn gyffredinol, er mwyn sicrhau'r budd mwyaf o ran iechyd y cyhoedd.

7.8 I fod yn glir, nid yw Llywodraeth Cymru yn awgrymu y dylai Awdurdodau Lleol allu dangos lleihad o ran llygredd aer a sŵn ar draws ei diriogaeth gyfan drwy fesur a phriodoli'r lleihad hwnnw i gynlluniau gweithredu ansawdd aer lleol. Fodd bynnag, mae'n gofyn iddynt ystyried unrhyw fanteision posibl yn nhermau lleihau llygredd a gludir yn yr aer yn fwy eang mewn perthynas â dewis a blaenoriaethu mesurau yn eu cynlluniau gweithredu. Dylai'r ffordd hon o feddwl dod yn naturiol dros amser wrth i'r ffyrdd o weithio a nodir yn y Ddeddf Llesiant ennill eu plwyf o fewn Awdurdodau Lleol. Wrth weithio yn unol â'r egwyddor datblygu gynaliadwy, dylai Awdurdodau Lleol, fel mater o drefn, edrych am gyfleoedd i fanteisio i'r eithaf ar fuddiannau sy'n deillio o'u gweithgareddau, gan gynnwys y canlyniadau o ran iechyd y cyhoedd sydd ynghlwm wrth sut maent yn dewis ac yn blaenoriaethu camau gweithredu yn eu cynlluniau gweithredu ansawdd aer lleol. Dylid cynnwys naratif ar yr ystyriaethau ehangach hyn o fewn y cynlluniau gweithredu.

8 Sŵn a Seinweddau

8.1 Yn ogystal â diwygio darpariaethau yn Neddf 1995, cyflwynodd Deddf 2024 rwymedigaethau deddfwriaethol ar gyfer rheoli sŵn a seinweddau, y tro cyntaf i hynny gael ei wneud yn y byd. Mae hyn yn adlewyrchu ein hymrwymiad i ddiogelu a gwella seinweddau Cymru.

8.2 Mae adran 25 o Ddeddf 2024 yn gosod rhwymedigaeth ar Weinidogion Cymru i baratoi a chyhoeddi Strategaeth Genedlaethol yn cynnwys eu polisiau mewn perthynas ag asesu, rheoli a dylunio seinweddau yng Nghymru.

8.3 Rhaid i'r Strategaeth roi sylw dyledus i wybodaeth wyddonol sy'n berthnasol i seinweddau, yn ogystal â'r mapiau sŵn strategol diweddaraf. Wrth baratoi ac adolygu'r Strategaeth, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â chyrrff cyhoeddus hefyd, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i Awdurdodau Lleol.

8.4 Mae adran 26 o Ddeddf 2024 yn gosod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol ac awdurdodau cyhoeddus perthnasol i ystyried y polisiau yn y strategaeth a gyhoeddwyd o dan adran 25 wrth arfer unrhyw swyddogaeth o natur gyhoeddus a allai effeithio ar seinweddau yng Nghymru. Disgwylir i awdurdodau lleol ystyried sut y byddant yn gweithredu'r polisiau yn y strategaeth ar draws timau yn eu cyrrff.

8.5 Ceir rhagor o ganllawiau i Awdurdodau Lleol yn Nodyn Cyngor Technegol 11 (TAN11): sŵn y Canllawiau Cynllunio. Bwriad Llywodraeth Cymru yw cyhoeddi TAN11 diwygiedig, sy'n ymdrin ag ansawdd aer, sŵn a seinweddau, yn 2025.

Atodiad A Amcanion a safonau ansawdd aer

Tabl A.1 Amcanion ansawdd aer cenedlaethol a gynhwysir yn Rheoliadau Ansawdd Aer (Cymru) 2000, fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Ansawdd Aer (Cymru) (Diwygio) 2002

Llygrydd	Amcan ansawdd aer cenedlaethol	
	Crynodiad	Mesurwyd fel
Bensen	16.25 µg/m ³ 5 µg/m ³	cymedr blynyddol cyfredol cymedr blynyddol
1,3-bwtadeuen	2.25 µg/m ³	cymedr blynyddol cyfredol
Carbon monocsid	10 mg/m ³	uchafswm cymedr dyddiol cyfredol o 8 awr
Plwm	0.25 µg/m ³	cymedr blynyddol
Nitrogen deuocsid	ni ddylid mynd y tu hwnt i 200 µg/m ³ fwy na 18 gwaith y flwyddyn 40 µg/m ³	cymedr 1 flynedd cymedr blynyddol
Gronynnau (PM ₁₀) (grafimetrig)	ni ddylid mynd y tu hwnt i 50 µg/m ³ fwy na 35 gwaith y flwyddyn 40 µg/m ³ (canllaw Sefydliad Iechyd y Byd 20 µg/m ³)	cymedr 24 awr cymedr blynyddol
Sylffwr deuocsid	ni ddylid mynd y tu hwnt i 266 µg/m ³ fwy na 35 gwaith y flwyddyn ni ddylid mynd y tu hwnt i 350 µg/m ³ fwy na 24 gwaith y flwyddyn	cymedr 15 munud cymedr 1 awr cymedr 24 awr

	<p>ni ddylid mynd y tu hwnt i 125 $\mu\text{g}/\text{m}^3$ fwy na 3 gwaith y flwyddyn (canllaw Sefydliad Iechyd y Byd 20 $\mu\text{g}/\text{m}^3$)</p>	
--	--	--

Tabl A.2 Safonau ansawdd aer eraill sy'n berthnasol i iechyd bodau dynol

Llygrydd	Terfyn neu werth targed yr UE	
	Crynodeiad	Mesurwyd fel
Arsenig	6 ng/m ³	cyfanswm cynnwys y ffracsiwn PM ₁₀ dros gyfartaledd o flwyddyn galendr
Benso(a)pyren	1 ng/m ³	cyfanswm cynnwys y ffracsiwn PM ₁₀ dros gyfartaledd o flwyddyn galendr
Cadmiwm	5 ng/m ³	cyfanswm cynnwys y ffracsiwn PM ₁₀ dros gyfartaledd o flwyddyn galendr
Nicel	20 ng/m ³	cyfanswm cynnwys y ffracsiwn PM ₁₀ dros gyfartaledd o flwyddyn galendr
Osôn	ni ddylid mynd y tu hwnt i 120 µg/m ³ fwy na 25 diwrnod y flwyddyn dros gyfartaledd o dair blynedd (canllaw Sefydliad Iechyd y Byd 100 µg/m ³)	uchafswm cymedr dyddiol cyfredol o 8 awr
Gronynnau (PM _{2.5}) (grafimetrig)	25 µg/m ³ (canllaw Sefydliad Iechyd y Byd 10 µg/m ³)	cymedr blynyddol